Saesneg isod/English below

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 11eg o Fehefin 2025 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) ynghyd a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts.

Roedd ymddiheuriad gan Cyng WRP Jones. Nid oedd wedi bod yn dda yn ddiweddar, a byddai'r Clerc yn danfon ein cofion ato.
Darllenwyd lythyr o ymddisyddiad gan Cyng Catrin Rutherford. Roedd am weld gwaed newydd ac ifanc yn dod i mewn i gyfrannu i ddantblygiad yr ardal. Ei chyfarfod olaf fyddai 28ain Gorffennaf. Diolchwyd yn ddiffuant iddi am ei chyfraniad.

Nid oedd unrhyw **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 28ain o Ebrill** ar gynnig Cyng.Catrin Rutherford a'i eilio gan Cyng Lona Harris.

4. **Materion yn codi.**

a) Gardd Goffa – nodwyd y diweddaraf, a'r materion canlynol;

- **Agoriad swyddogol 20fed Mehefin 5yh.** Cadarnhawyd bawb sydd wedi ei wahodd, a diolchwyd i Eurgain am wneud poster. Roedd angen pawb ymgynnull am 4.15/4.30 yn y Neuadd ymlaenllaw, a thrafodwyd trefniadau cael te/coffi a chacen wedyn yn y Neuadd. Byddai'r Clerc yn crynhoi yr hanes ar gyfer cefndir i Mabon. Diolchwyd i Shan am gyfrannu blodau. Byddai anfoneb am hadau a compost eto.

- **Rheolau claddu llwch** – trafodwyd hyn unwaith yn rhagor, a darllenwyd ymateb Mark Mortimer o Gyngor Gwynedd i'r ymholiad ers cyfarfod diwethaf – er nad oedd yn ymateb clir. Penderfynwyd mynd ymlaen yn unol a'r bwriad gwreiddiol. Gallai rhai roi plac yn unig, neu chwalu llwch a rhoi plac hefyd. Dylai teuluoed fod yn ymwybodol o'r sefyllfa. Penderfynwyd y dylid cael cofrestr - mewn llyfr ac yn electroneg, gyda rheolau wedi eu datgan yn glir.

b) **Llwybr sy'n arwain at y cae chwarae** – adroddwyd am gyfarfod ar y safle gyda Gwyn Evans o Gyngor Gwynedd ar y 12fed o Fai, gyda perchennog y ty cyfagos yno hefyd. Rhoddwyd eglurhad llawn am y sefyllfa, sef nad oedd hwn yn llwybr cyhoeddus swyddogol gan Gyngor Gwynedd, ac na fedrant wneud gwaith yno. (er mi fyddent yn sicrhau na fyddai dwr yn rhedeg lawr y llwybr)

c) **Llywodraethwyr Ysgol Craig yr Aderyn** – Cadarnhawyd enw Cyng Rhys Williams i gynrychioli y Cyngor Cymuned a diolchwyd iddo..

d) **Toiledau Llanegryn** - roedd pob dim yn iawn ar hyn o bryd.

**5. Materion Cynllunio**

**NP5/64/182C –** cais ol-weithredol i godi sied amaethyddol – Bryn Eglwys, Llanegryn.

Cytunwyd i gefnogi, gan fod yr adeilad yn gweddu i'r safle, ac yn angenrheidiol i fusnes y fferm.

(cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Rhys Williams pan drafodwyd hyn, a gadawodd yr ystafell a llenwi y ffurflen berthnasol)

6. **Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2024-25** - Roedd yr hysbyseb gyhoeddus wedi ei paratoi gan y Clerc i'w rhoi ar yr hysbysfwrdd, a byddai copi ar y wefan maes o law.

b) **Mandate y Banc** – roedd y cyfan wedi ei gwbwlhau, ac arwyddwyd i newid cyfeiriad derbyn y gohebiaeth. Byddai y Clerc yn eu rhoi i fanc HSBC diwrnod canlynol.

c) **Anfonebau i'w talu** – ar gynnig Cyng Lona Harries a'i eilio gan Cyng Eurgain Davies, cytunwyd i'r canlynol;

- CR Plumbing – gwaith yn toiledau Llanegryn – gan na fedrai dderbyn siec i'w gyfri busnes, byddai rhaid gwneud siec arall i Chris Rawson am £407.80
- Planhigion yr Ardd Goffa – y cyfan wedi ei drefnu a'u prynu gan Cyng Beth Lawton, a chytunwyd i dalu yr anfoneb o £261.27
- I B Williams a'i Fab – cost plac llechen Gymraeg a'i gosod ar y garreg yn yr Ardd Goffa - £477.00
- Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc (£400.01) a HMRC (£100)

d) **Ystyried unrhyw geisiadau am arian**

- Ambiwlans Awyr Cymru – gwelwyd y byddai rhaid aros am ganlyniad yr Adolygiad Barnwrol.
- Papur Bro Dail Dysynni – cytunwyd ar gyfraniad o £150

**7. Gohebiaeth.**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai y Clerc yn dosbarthu rhai Mehefin - Medi 2025.

b) Roedd gohebiaeth gan y Comisiynydd Heddlu ynglyn ag adolygiad o sut mae camerau CCTV yn atal trosedd.

c) Roedd gohebiaeth gan CAB Gwynedd, a'r bwriad i uno gyda CAB Cylch Conwy.

d) Amlinellwyd ohebiaeth am **Gronfa 'Gwynedd Ni'** , a'r cyfleoedd am grant o hyd at £5000 o fewn ffiniau y Cyngor i rai materion. Roedd y Clerc wedi eu dosbarthu eisoes, a gofynnwyd am gymorth pawb efo hyn.

Trafodwyd nifer o syniadau, gan gynnwys gwelliant i'r toiledau a gwella safle y rac beics ger Cefn Coch. Byddai y Clerc yn rhoi y syniadau i Alys yn Cyngor Gwynedd, ac yn ymateb i bawb yn y lle cyntaf. Addawodd Lona a Eurgain gynorthwyo efo hyn, a diolchwyd yn fawr iawn iddynt.

8**. Unrhyw fater arall.**

- Derbyniwyd adroddiad gan Cyng Beth Lawton am ei gwaith yn yr ardal, gan gyfeirio at y buddsoddiad enfawr yn Dolgellau gyda adeilad newydd Coleg Meirion (Grwp Llandrillo Menai) Hefyd soniodd am yr holl ymholiadau gyda'r problemau efo'r bysiau i'r pentref ffyrdd. ac hefyd y diweddaraf gyda Ysbyty Tywyn. Hefyd ei haelodaeth o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd, a'r bwriad i wneud sesiwn ar y Côd ymddygiad i Gynghorau Cymuned yn fuan.
- Cyfeiriodd Cyng Eurgain Davies am weithgarwch yn Neuadd Llanegryn
- Awgrymwyd a fyddai yn fuddiol cael tudalen fbook i'r pentref/ Cyngor – hyn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
- Atgoffwyd pawb fod dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor gweddill y flwyddyn ar y wefan, ac mai cyngorllanegryn@outlook.com yw cyfeiriad e-bost y Cyngor i'r dyfodol.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 28ain o Orffennaf 2025 , 7.30y.h.**

Minutes of the Council meeting held on Wednesday 11th June 2025 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.

Present; Cllr. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, Rhys Williams and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council)

together with Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Alwyn Roberts.

There was an apology from Cllr WRP Jones. He had not been well recently, and the Clerk would send our remembrances to him.

A letter of resignation was read from Cllr Catrin Rutherford. She wanted to see new and young blood coming in to contribute to the development of the area. Her last meeting would be 28th July. She was sincerely thanked for her contribution.

There were no declarations of interest about issues on the agenda.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

3. The minutes of the Annual Meeting held on the 28th of April were confirmed on the proposal of Cllr. Catrin Rutherford and seconded by Cllr Lona Harris.

4. Matters arising.

a) Memorial Garden - the latest, and the following issues were noted;

• Official opening 20th June 5pm. Everyone who has been invited was confirmed, and Eurgain was thanked for making a poster. Everyone needed to gather at 4.15/4.30 in the Hall beforehand, and arrangements were discussed to have tea/coffee and cake afterwards in the Hall. The Clerk would summarize the history for a background to Mabon. Shan was thanked for donating flowers. There would be an invoice for seeds and compost again.

Ash burial rules - this was discussed once more, and Mark Mortimer's response from Gwynedd Council to the query since the last meeting was read - although it was not a clear response. It was decided to proceed in accordance with the original intention. Some could just give a plaque, or ash and give a plaque as well. Family members should be aware of the situation. It was decided that there should be a register - in a book and electronically, with clearly stated rules.

b) A path that leads to the playing field - a meeting was reported on the site with Gwyn Evans from Gwynedd Council on the 12th of May, with the owner of the neighboring house also there. A full explanation was given about the situation, namely that this was not an official public path by Gwynedd Council, and that they could not do work there. (although they would ensure that water would not run down the path)

c) Governors of Ysgol Craig yr Aderyn - Cllr Rhys Williams' name was confirmed to represent the Community Council and he was thanked.

d) Llanegryn Toilets - everything was fine at the moment.

5. Planning Matters

NP5/64/182C - retrospective application to erect an agricultural shed - Bryn Eglwys, Llanegryn.

It was agreed to support, as the building suits the site, and is necessary for the farm's business.

(a declaration of interest was received from Cllr Rhys Williams when this was discussed, and he left the room and filled in the relevant form)

6. Finance Matters.

a) Accounts 2024-25 - The public advertisement had been prepared by the Clerk to be placed on the notice board, and a copy would be on the website in due course.

b) Mandate of the Bank - all had been completed, and it was signed to change the address of receiving the correspondence. The Clerk would give them to HSBC bank the following day.

c) Invoices to be paid - on the proposal of Cllr Lona Harries and seconded by Cllr Eurgain Davies, it was agreed to the following;

- CR Plumbing - work in Llanegryn toilets - as he could not receive a cheque for his business account, another cheque would have to be made out to Chris Rawson for £407.80
- Memorial Garden plants - all arranged and bought by Cllr Beth Lawton, and it was agreed to pay the invoice of £261.27
- To  I B Williams and his Son - the cost of a Welsh slate plaque and placing it on the stone in the Memorial Garden - £477.00
- Clerk's first quarter remuneration (£400.01) and HMRC (£100)

d) Consider any requests for money

- Cymru Air Ambulance - it was seen that it would be necessary to wait for the outcome of the Judicial Review.
- Dail Dysynni Bro Paper - a contribution of £150 was agreed

7. Correspondence.

a) Un Llais Cymru training sessions were identified, and the Clerk would distribute some June - September 2025.

b) There was correspondence from the Police Commissioner regarding a review of how CCTV cameras prevent crime.

c) There was correspondence from CAB Gwynedd, and the intention to merge with CAB Cylch Conwy.

d) Correspondence was outlined about the 'Gwynedd Ni' Fund, and the opportunities for a grant of up to £5000 within the Council's boundaries for certain issues. The Clerk had already distributed them, and we asked for everyone's help with this.

A number of ideas were discussed, including an improvement to the toilets and improving the position of the bike rack near Cefn Coch. The Clerk would give the ideas to Alys at Gwynedd Council, and respond to everyone in the first place. Lona and Eurgain promised to help with this, and we thanked them very much.

8. Any other matter.

• A report was received from Cllr Beth Lawton about her work in the area, referring to the huge investment in Dolgellau with the new Coleg Meirion building (Llandrillo Menai Group) She also mentioned all the inquiries with the problems with the buses to the road village. and also the latest with Ysbyty Tywyn. Also her membership of Gwynedd Council's Standards Committee, and the intention to hold a session on the Code of conduct for Community Councils soon.

• Cllr Eurgain Davies referred to activity in Llanegryn Hall

• It was suggested whether it would be beneficial to have a fbook page for the village/Council - this to be discussed at the next meeting.

• Everyone was reminded that the dates of the Council's meetings for the rest of the year are on the website, and that the Council's e-mail address for the future is cyngorllanegryn@outlook.com.

DATE OF NEXT MEETING;  THE LLANEGRYN HALL MONDAY 28th July 2025, 7.30pm.